# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 5

DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 52 Ystyr "corff cyhoeddus": darpariaeth bellach

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio adran 6(1) drwy—

(a) ychwanegu person,

(b) tynnu person ymaith, neu

(c) diwygio'r disgrifiad o berson.

(2) Ond ni chaiff y rheoliadau ond ddiwygio adran 6(1) drwy ychwanegu person os yw'r person hwnnw yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

(3) Os yw'r rheoliadau yn diwygio adran 6(1) er mwyn ychwanegu person sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus a swyddogaethau eraill, nid yw Rhannau 1 i 3 ond yn gymwys i'r person hwnnw mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny sydd ganddo sydd o natur gyhoeddus.

(4) Cyn gwneud rheoliadau sy'n diwygio adran 6(1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) y Comisiynydd;

(b) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol;

(c) os yw'r rheoliadau yn diwygio adran 6(1) er mwyn ychwanegu person, y person hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 52 mewn grym ar 30.4.2015 at ddibenion penodedig, gweler **a. 56(1)(b)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 52. (See end of Document for details)*

**I2** A. 52 mewn grym ar 16.10.2015 gan O.S. 2015/1785, **ergl. 2(n)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 52.